
Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2015-17



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ebrill 2015



Dyma ail gynllun strategol
Comisiynydd y Gymraeg.
Mae'n amlinellu amcanion a
blaenoriaethau'r Comisiynydd
am y cyfnod o Ebrill 2015 hyd
at Mawrth 2017.

Cynnwys

1	Rhagair	4
2	Nod a Swyddogaethau	6
3	Gweledigaeth a Gwerthoedd	8
4	Amcanion Strategol	9
	Amcan Strategol 1	9
	Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi	
	Amcan Strategol 2	11
	Sicrhau cyfiawnder i ddefnyddwyr y Gymraeg	
	Amcan Strategol 3	13
	Gosod dyletswyddau statudol a'u rheoleiddio	
	Amcan Strategol 4	15
	Annog, hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar sail wirfoddol	
	Amcan Strategol 5	17
	Gweithredu a chyfathrebu'n briodol ac effeithiol	
5	Adrodd ar Gynnydd	19

1

Rhagair

4



Caiff y Cynllun Strategol hwn ei gyhoeddi mewn cyfnod o newidiadau mawr ym mywyd cyhoeddus Cymru.

Gydag Etholiad Cyffredinol ym mis Mai 2015 ac Etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016, byddwn yn gweld cyfnod o newid llywodraethau, a rhaglenni deddfwriaethol newydd yn cael eu datblygu a'u creu. Bydd argymhellion Comisiwn Silk yn dod i rym, a phwerau newydd yn cael eu datganoli i Gymru. Ar yr un pryd, wrth i lywodraeth leol a gwasanaethau eraill gael eu had-drefnu, bydd siâp yr holl sector cyhoeddus yng Nghymru'n newid yn sylfaenol.

Mae blaenoriaethau'r cynllun hwn wedi'u llunio gyda'r nod o sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r trafodaethau cyhoeddus a'r penderfyniadau polisi a ddaw yn sgil y newidiadau.

Bydd newid sylweddol yn y ffordd y caiff gwasanaethau Cymraeg eu darparu wrth i fy swyddfa ddechrau gosod safonau'r Gymraeg ar sefydliadau. Bydd y gyfundrefn newydd yn gosod dyletswyddau a fydd yn arwain at greu hawliau i dderbyn gwasanaethau Cymraeg.


Byddaf yn gweithredu trefn reoleiddio gadarn ar y dyletswyddau newydd. Rwyf o'r farn mai sail greiddiol unrhyw waith rheoleiddio yw gwarchod a sicrhau parch a thegwch i ddinasyddion. Byddaf yn cefnogi defnyddwyr y Gymraeg ac yn gweithio â chymunedau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u profiadau, eu hanghenion a'u dyheadau. Caiff y dystiolaeth a gesglir ei defnyddio er mwyn cyfrannu at sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith. Fy mwriad drwy wneud hynny yw rhoi sicrwydd a hyder i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Disgwyliaf i sefydliadau gydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol a osodir arnynt. Lle nad yw hynny'n digwydd, byddaf yn cymryd camau priodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau a, thrwy hynny, yn sicrhau bod hawliau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu gwarchod. Er mwyn cyflawni hyn, byddaf yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau rheoleiddio.

Bydd rhaglen gyfathrebu â'r cyhoedd yn cael ei llunio, a bwriadaf fanteisio ar bob cyfle i drafod ag unigolion a gwahanol grwpiau a mudiadau ar lawr gwlad. Cynhelir cynhadledd Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith yng Nghymru yn 2017, a bydd y digwyddiad yn gyfle i ni rannu profiadau am sut mae modd sicrhau hawliau iaith yn ogystal â bod yn gyfle i arddangos y gorau o'r Gymru ddwyieithog i gynulleidfa ryngwladol.

Fy nod yw Cymru lle gall unrhyw un fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. I gyrraedd y nod, byddaf yn plethu'r gwaith o weithredu a rheoleiddio'r gyfraith â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Golyga hyn gydweithio â mudiadau trydydd sector ac elusennau, busnesau megis siopau a banciau a rhai ym meysydd twristiaeth a threftadaeth, y byd chwaraeon a hamdden, a'r cyrff sy'n cynrychioli'r holl sectorau hyn, i'w cefnogi i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.

Drwy weithredu'r blaenoriaethau strategol yn y ddogfen hon, fy amcan yw sicrhau bod yr holl newidiadau i dirlun bywyd cyhoeddus Cymru'n arwain at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Rwyf am weld Cymru lle mae'r Gymraeg yn rhan ddi-gwestiwn a naturiol o fywyd pob dydd, yn y cymunedau Cymraeg ac yn y cymunedau dwyieithog ac amlieithog, ym mhob cwr o'r wlad.



Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

2

Nod a Swyddogaethau

- 2.1 Caiff nod a swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg eu diffinio ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny mae'n rhaid i'r Comisiynydd weithio tuag at gynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac i ddyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi'u gosod drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny.
- 2.2 Mae dwy egwyddor ehangach yn sail i waith y Comisiynydd. Yn gyntaf yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac yn ail yr egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- 2.3 Caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol o fewn terfynau deddfwriaeth i gyflawni ei nod. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi nifer o swyddogaethau a phwerau i'r Comisiynydd. Rhaid i'r Comisiynydd er enghraifft gyhoeddi adroddiadau 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg a gall gynnal ymholiadau i unrhyw fater yn ymwneud â'i swyddogaethau. Gall gychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol ac y mae gan y Comisiynydd bwerau lled farnwrol drwy'r gofyniad i ddyfarnu ar achosion o fewn ei swyddogaethau. Mae gan y Comisiynydd swyddogaethau ehangach hefyd, gan gynnwys:
- Hybu darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
 - Cadw digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth
 - Llunio a chyhoeddi adroddiadau
 - Gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud
 - Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru
 - Rhoi cyngor i unrhyw berson
-

- 2.4 Mae **laith fyw: laith byw**, Strategaeth y Gymraeg 2012-17, Llywodraeth Cymru hefyd yn gosod cyfrifoldebau ar y Comisiynydd. Maent yn cynnwys:
- Datblygu canllawiau ynghylch arferion da mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector
 - Hybu defnydd gwirfoddol y trydydd sector o'r Gymraeg
 - Hybu defnydd gwirfoddol y sector preifat o'r Gymraeg
 - Cydgysylltu'r gwaith o safoni terminoleg ac enwau lleoedd Cymraeg
 - Cefnogi a datblygu'r diwydiant cyfieithu
- 2.5 Ystyriwyd yr holl faterion hyn yn ogystal â chyflawniad y Cynllun Strategol cyntaf wrth baratoi'r Cynllun hwn. Mae'r ddogfen hon yn egluro sut bwriedir gweithio tuag at gyflawni nod cyffredinol Comisiynydd y Gymraeg dros y ddwy flynedd nesaf.
-

3

Gweledigaeth a Gwerthoedd

- 3.1 Yn ychwanegol i'r nod a'r swyddogaethau statudol, gweledigaeth ehangach y Comisiynydd yw:
- Cymru lle bydd y Gymraeg yn ganolog i fywyd bob dydd a lle gellir ei defnyddio'n gynyddol**
- 3.2 Mae'r Comisiynydd wedi ei sefydlu ers tair blynedd erbyn hyn ac wedi cyflawni ei Chynllun Strategol cyntaf. Roedd y cynllun cyntaf yn ymhél i raddau helaeth â gosod sylfeini ar gyfer gweithredu deddfwriaeth newydd. Roedd yn gyfnod o brofi a herio swyddogaethau a phwerau newydd, gan gynnwys cynnal ymholiad am y tro cyntaf i ofal sylfaenol; gwneud cais am adolygiad barnwrol yn erbyn Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol a symud ymlaen gyda chyfrifoldebau'r Comisiynydd yn y broses o osod safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.
- 3.3 Wrth weithredu i wireddu ei weledigaeth tymor hir, mae'r Comisiynydd wedi adnabod 5 amcan strategol ar gyfer 2015-17:
1. Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi
 2. Sicrhau cyfiawnder i ddefnyddwyr y Gymraeg
 3. Gosod dyletswyddau statudol a'u rheoleiddio
 4. Annog, hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar sail wirfoddol
 5. Gweithredu a chyfathrebu'n briodol ac effeithiol
- 3.4 Bydd y Comisiynydd a'i swyddogion yn gweithredu ar sail gwerthoedd craidd. Rhaid sicrhau bod y Comisiynydd yn gweithredu'n annibynnol drwy wneud penderfyniadau a'u gweithredu ar sail tystiolaeth. Wrth ffurfio barn bydd y Comisiynydd yn gadarn gan roi sicrwydd i'r defnyddiwr. Bydd y Comisiynydd yn defnyddio pob cyfle i fod yn rhagweithiol ac i dorri tir newydd er mwyn ysgogi newid a gwella parhaus. Er mwyn cyfrannu at gynyddu defnydd o'r Gymraeg, bydd y Comisiynydd yn llais dros ddefnyddwyr y Gymraeg. I feithrin amgylchedd gweithio atyniadol ac iach sy'n cefnogi ei weithwyr ac yn ceisio eu barn, ac er mwyn bod yn sefydliad sy'n dysgu o brofiad, bydd y Comisiynydd yn agored ac yn deg.
-

4

Amcanion Strategol

Amcan Strategol 1

Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi

- 4.1 Gall datblygiadau polisi a deddfwriaeth gael effaith sylweddol ar y nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae meysydd megis addysg, datblygu economaidd, tai a chynllunio yn greiddiol i ddyfodol y Gymraeg. Oni fydd ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r Gymraeg yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisiâu a deddfwriaeth yn y meysydd hyn, mae risg y gallai datblygiadau gael effaith andwyol ar y Gymraeg neu y collir cyfleoedd i effeithio'n gadarnhaol ar ei dyfodol.
 - 4.2 Llywodraeth Cymru yw'r prif sefydliad datblygu polisi a deddfwriaeth yng Nghymru ac mae Llywodraeth y DU hefyd yn datblygu polisi ar feysydd na ddatganolwyd. Anghyson yw'r ystyriaeth sydd wedi ei rhoi i'r Gymraeg gan wneuthurwyr polisi a deddfwriaeth hyd yma. Mae angen i'r Gymraeg gael ei hystyried yn gyson a bydd y Comisiynydd yn craffu ac yn gweithio i ddylanwadu ar hynny gan flaenoriaethu materion cenedlaethol sy'n mynd i gael yr effaith fwyaf ar y Gymraeg.
 - 4.3 Cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad ymholiad i'r sector gofal sylfaenol yn ystod 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu ar sail argymhellion yr adroddiad a bydd disgwyl gwelliannau pendant yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Bydd y Comisiynydd yn adeiladu ar brofiad yr ymholiad cyntaf ac yn dechrau cynllunio ar gyfer cynnal ymholiad arall ar bwnc gwahanol yn ystod ail flwyddyn y cynllun hwn.
 - 4.4 Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd baratoi adroddiad 5 mlynedd am sefyllfa'r Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn ystyried ac yn crynhoi'r dystiolaeth a'r ymchwil mwyaf arwyddocaol am y Gymraeg. Bydd hynny'n cynnwys dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2011 a ffynonellau eraill, megis yr Arolwg Defnydd Iaith a gomisiynwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Anelir tuag at gyhoeddi a chyflwyno'r adroddiad i'r Llywodraeth yn ystod haf 2016.
-

4.5

Mae dylanwadu ar bolisi yn ddibynnol i raddau helaeth ar gael tystiolaeth a data i gefnogi a chryfhau dadleuon. Bydd yr adroddiad 5 mlynedd yn ffynhonnell bwysig o ran hynny, a bydd y Comisiynydd yn parhau i gynyddu dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg drwy wneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud. Bydd hefyd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt ar waith ymchwil.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

1. Dylanwadu a chraffu ar bolisi a deddfwriaeth
 2. Cynnal ymholiad ar sail tystiolaeth i faes sydd o flaenoriaeth
 3. Paratoi adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg
 4. Cynyddu a gwella'r ddealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg drwy gynnal ymchwil a chydweithio ag eraill
-

Amcan Strategol 2

Sicrhau cyfiawnder i ddefnyddwyr y Gymraeg

- 4.6 Wrth i ddylanwad Mesur y Gymraeg gryfhau dros sefydliadau bydd disgwyliadau'n codi. Serch hynny nid yw'n debygol y bydd mwy o gyllid cyhoeddus ar gael a gall hyn effeithio ar natur neu amrediad y gwasanaethau fydd yn cael eu cynnig yn y dyfodol. Mewn hinsawdd o'r fath mae dau beth yn bwysig i'r Comisiynydd:
- Nad yw'r newidiadau sydd ar y gorwel yn effeithio'n anghymesur ar y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.
 - Bod modd defnyddio pŵerau'r Comisiynydd er mwyn cynnal a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg gan sicrhau atebolrwydd pan aiff pethau o'u lle, a chyfiawnder i unigolion.
- 4.7 Bydd y Comisiynydd yn arwain trafodaeth ar hawliau defnyddwyr y Gymraeg. Bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau dealltwriaeth ar draws cymdeithas am yr heriau sy'n codi wrth geisio defnyddio'r iaith. Drwy gydweithio gellir dod o hyd i ffyrdd newydd o gwrdd ag anghenion a dyheadau pobl. Yn fwy na dim mae'n rhaid sicrhau parch at y sawl sydd am fyw eu bywydau bob dydd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.8 Bydd y Comisiynydd yn gweithio er mwyn sicrhau mwy o atebolrwydd lle nad oes digon o warchodaeth gyfreithiol neu gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. Yn y cyswllt hwn mae gwahanol bethau y gall y Comisiynydd eu gwneud o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Un o'r pethau hynny yw defnyddio pŵerau i gyhwyn neu i ymyrryd mewn achosion cyfreithiol. Bydd y Comisiynydd yn defnyddio'r pŵer hwn os bydd o'r farn bod mater yn un strategol bwysig i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg; lle nad oes dewis arall o gyrraedd yr un nod ac os yw'r achos yn un o fudd cyhoeddus amlwg.
- 4.9 Yn gynyddol bydd gan y Comisiynydd bŵer i orfodi sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg lle maent wedi methu â gwneud hynny fel y dylent. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu mewn modd cadarn a theg ac yn unol â'i Pholisi Gorfodi. Y nod fydd gorfodi cydymffurfio â dyletswyddau er mwyn atal methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mewn achosion difrifol bydd yn gosod cosb.
-

- 4.10 Bydd y Comisiynydd yn ystyried i ba raddau y bydd dyletswyddau iaith Gymraeg sydd wedi eu gosod drwy gyfraith yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar allu defnyddwyr i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd modd ystyried hefyd pa agweddau ar fywydau pobl nad ydynt yn cael eu gwarchod gan y safonau hynny. Bydd cyfrifoldeb ar y Comisiynydd yn y cyswllt hwn i gadw gorolwg ar ddigonolrwydd y gyfraith.
- 4.11 Bydd y Comisiynydd yn ymchwilio a dyfarnu ar achosion, boed hynny yn sgil derbyn gwybodaeth ynghylch ymyrraeth â rhyddid person i ddefnyddio'r Gymraeg, amheumon ynghylch methiant sefydliad i weithredu cynllun iaith neu, yn y dyfodol, methiant i gadw at safonau'r Gymraeg. Cwynion gan unigolion fydd cyfran fawr o'r achosion y bydd y Comisiynydd yn ymchwilio iddynt. Wrth ddyfarnu ar bob achos bydd yn ymwybodol o'r hawliau sy'n gallu deillio o'r swyddogaeth gorfodi dyletswyddau.
- 4.12 Mae darparu gwybodaeth mewn modd strategol yn fodd effeithiol o rymuso defnyddwyr. Mae cadw cyswllt gyda defnyddwyr yn rhan ganolog o swyddogaethau rheoleiddiol y Comisiynydd a bydd hyn yn digwydd yn gynyddol wrth i safonau'r Gymraeg ddod yn weithredol.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

5. Gwella dealltwriaeth ynglŷn â hawliau defnyddwyr y Gymraeg
6. Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a hawliau ieithyddol drwy gychwyn neu ymyryd mewn achosion cyfreithiol
7. Sicrhau bod sefydliadau'n gweithredu fel y dylent drwy orfodi dyletswyddau a chosbi methiannau yn unol â phwerau cyfreithiol y Comisiynydd
8. Ymchwilio i amheumon o fethiant i gydymffurfio â dyletswyddau

Amcan Strategol 3

Gosod dyletswyddau statudol a'u rheoleiddio

- 4.13 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn creu trefn o gyflwyno dyletswyddau ar sefydliadau ar ffurf safonau'r Gymraeg. Mae dwy swyddogaeth benodol i'r Comisiynydd yn y broses o osod safonau sef cynnal ymchwiliadau safonau ar ddechrau'r broses a rhoi hysbysiadau cydymffurfio er mwyn gosod dyletswyddau penodol ar sefydliadau. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw pennu cynnwys y safonau. Gwneir hynny mewn rheoliadau, sef is-ddeddfwriaeth a gyflwynir drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 4.14 Mae'r Comisiynydd eisoes wedi cynnal ymchwiliad safonau i 145 o sefydliadau ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rheoliadau safonau ar gyfer y 26 sefydliad cyntaf. Bydd y Comisiynydd yn parhau â'r gwaith o gynnal ymchwiliadau safonau yn ystod oes y cynllun hwn, gan flaenoriaethu sectorau eraill a enwir yn y Mesur. Bydd y Comisiynydd hefyd yn rhoi hysbysiadau cydymffurfio i'r sefydliadau hynny fydd wedi eu henwi yn rheoliadau'r Llywodraeth.
- 4.15 Un o swyddogaethau'r Comisiynydd yw darparu cyngor ac annog arfer da o ran defnyddio'r Gymraeg. Wrth i ddyletswyddau newydd gael eu cyflwyno ar sefydliadau bydd yn bwysig eu bod yn deall y gofynion yn llawn. Gall y Comisiynydd er enghraifft gyhoeddi codau ymarfer at ddiben darparu canllawiau ymarferol am ofynion safonau. Mae'r Comisiynydd eisoes wedi cyhoeddi dogfennau cyngor ar faterion megis recriwtio; technoleg a grantiau a bydd yn ystyried yr angen am ganllawiau newydd wrth i safonau ddod i rym. Bydd y Comisiynydd hefyd yn cynnal digwyddiadau i addysgu sefydliadau am eu dyletswyddau yn ôl yr angen.
- 4.16 Unwaith y bydd hysbysiadau cydymffurfio wedi'u gosod ar sefydliadau bydd y Comisiynydd yn eu rheoleiddio o fewn trefniadau atebolrwydd clir. Wrth arolygu cydymffurfiaeth, y nod fydd cefnogi sefydliadau i gydymffurfio'n dda â'r safonau a osodwyd arnynt. Wrth ystyried cydymffurfiaeth â safonau bydd y Comisiynydd yn chwilio am lwyddiant ac yn dwyn sylw sefydliadau at gamau y dylent eu cymryd er mwyn osgoi methiant.
- 4.17 Wrth reoleiddio, dymuniad y Comisiynydd yw cynnal perthynas gydweithredol â sefydliadau. Bydd y Comisiynydd y gweithredu'n deg ac yn agored. Bydd yn dadansoddi perfformiad ar sail tystiolaeth, yn rhoi'r sylw i'r materion hynny sydd bwysicaf ac yn dwyn sylw at atebion i broblemau sy'n effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
-

- 4.18 Bydd y Comisiynydd yn cymryd pob cyfle i weithio er budd y cyhoedd. Bydd yn rhoi barn arbenigol ar gydymffurfiaeth ac yn cynnig lefel o sicrwydd cyhoeddus ar berfformiad. Rhoddir sylw gofalus i gynhyrchu gwaith o ansawdd uchel er mwyn ennyn ffydd a hyder cyhoeddus yn ei chasgliadau. Bydd y farn honno'n gyson â'r gofynion statudol sydd ar sefydliadau ac yn farn annibynnol bob amser.
- 4.19 Bydd yn bwysig rhoi sylw i effaith dyletswyddau ar y Gymraeg ac am y rheswm hwnnw bydd cyfran o adnoddau'r Comisiynydd yn canolbwyntio ar adnabod ac adrodd am brofiadau defnyddwyr y Gymraeg. Gellir cyflawni llawer mwy drwy gydweithio a gwrandio ar ddefnyddwyr y Gymraeg nag o beidio â'u cynnwys yn y broses.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

9. Gosod dyletswyddau statudol ar gyrff drwy'r gyfundrefn safonau
 10. Gwneud gofynion statudol yn glir i'r rhai sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio
 11. Gweithredu rhaglen reoleiddio ragataliol er mwyn mesur perfformiad sefydliadau yn erbyn dyletswyddau iaith
 12. Rhoi barn annibynnol ar berfformiad sefydliadau ac adrodd ar brofiadau iaith defnyddwyr y Gymraeg
-

Amcan Strategol 4

Annog, hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar sail wirfoddol

- 4.20 Rhaid i'r Gymraeg fod yn rhwydd i bawb ei defnyddio. Bydd y Comisiynydd yn gweithio i annog, hybu a hwyluso'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd holl ddinasyddion Cymru. Bydd hyn ar sail wirfoddol ymysg mwyafrif sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector. Gwneir hyn drwy ddangos gwerth y Gymraeg i'r sefydliadau, boed hynny i'w cleientiaid, eu cwsmeriaid, eu staff neu eu rhanddeiliaid ehangach. Bydd y Comisiynydd yn cynnig cyfleoedd i sefydliadau ymrwymo at gynlluniau hybu'r Gymraeg.
- 4.21 Er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth berthnasol ar gael i sefydliadau ac unigolion, bydd y Comisiynydd yn gweithio i gasglu a lledaenu arferion da sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd y Comisiynydd yn cynnig cyfleoedd i addysgu sefydliadau nad oes dyletswyddau iaith statudol arnynt. Gwneir sefydliadau yn ymwybodol o'r dystiolaeth a'r ymchwil sy'n dangos buddion darparu gwasanaethau Cymraeg a cheisio sicrhau eu bod yn gwneud y gorau o'r canllawiau arfer gorau sydd ar gael.
- 4.22 Er mwyn gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth ac amcanion y Comisiynydd ac er mwyn sicrhau'r traweffaith gorau posibl, bydd y Comisiynydd yn gweithio gyda'r ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol sy'n bodoli yn y sector preifat a thrydydd sector. Bydd hyn yn lledaenu gweledigaeth greiddiol y Comisiynydd o greu Cymru lle bydd y Gymraeg yn gwbl ganolog i fywyd bob dydd a lle gellir ei defnyddio'n gynyddol.
- 4.23 Er mwyn i unigolion a sefydliadau o bob math fedru cynnig darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg rhaid sicrhau bod yr isadeiledd, sef yr adnoddau addas i hwyluso hynny, ar gael iddynt. Mae hyn yn cynnwys technoleg gwybodaeth sy'n cynnal y Gymraeg; adnoddau ieithyddol megis geirfa ac enwau lleoedd safonol a chorff o gyfieithwyr proffesiynol o'r radd flaenaf.
- 4.24 Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gydgysylltu datblygiadau ym maes terminoleg ac enwau lleoedd ac am barhau i ddatblygu'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod isadeiledd y Gymraeg yn cael ei datblygu bydd y Comisiynydd yn cydweithio ac yn datblygu rhwydweithiau cryf â sefydliadau eraill yn y maes, gan ddylanwadu ar lunwyr polisi er mwyn sicrhau eu bod yn llawn ymwybodol o anghenion y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ynghylch isadeiledd y Gymraeg.
-

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

13. Adnabod cyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg
 14. Datblygu a lledaenu canllawiau ac arferion da ar y defnydd o'r Gymraeg
 15. Datblygu cysylltiadau a rhwydweithiau strategol
 16. Cydgysylltu datblygiadau isadeiledd y Gymraeg
-

Amcan Strategol 5

Gweithredu a chyfathrebu'n briodol ac effeithiol

- 4.25 Gydag aelodau o staff wedi eu lleoli ar draws pedair swyddfa mae cyfathrebu mewnol yn hanfodol i sicrhau undod pwrpas. Bydd y Comisiynydd felly yn sicrhau bod amrywiaeth o ffyrdd i swyddogion gyfathrebu â'i gilydd. Mae'r Comisiynydd yn cydnabod undeb y PCS ac yn cyfarfod yn rheolaidd â'i swyddogion er mwyn trafod materion sydd o bwys i aelodau'r undeb.
- 4.26 Bydd y Comisiynydd yn datblygu rhaglen i gyfathrebu â'r cyhoedd, gwneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid eraill er mwyn datblygu a chryfhau dealltwriaeth o'r hyn y mae disgwyl i sefydliadau ei gynnig yn Gymraeg, hyd a lled grymoedd y Comisiynydd a pha wasanaethau y mae'r Comisiynydd yn eu darparu. Caiff amrywiaeth o ddulliau eu defnyddio i gyfathrebu â'r rhan-ddeiliaid, gan gynnwys cyfleoedd amrywiol i wrando ar farn pobl Cymru.
- 4.27 Mewn cyfnod o wasgfa ariannol, mae defnydd effeithiol o arian ac adnoddau yn allweddol bwysig ac mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i egwyddorion rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae polisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i gynllunio, rheoli a monitro gwariant ac adnoddau'r sefydliad. Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol iawn hefyd o'r angen i ddarparu'r adnoddau priodol i swyddogion gyflawni gweledigaeth y Cynllun Strategol ac i wrthbwysu hynny a'r angen i weithredu'n gost effeithiol.
- 4.28 Yn ogystal â Phanel Cyngori a benodir gan Lywodraeth Cymru, mae gan y Comisiynydd Bwyllgor Archwilio a Risg ac mae wedi penodi Archwilwyr Mewnol i roi trosolwg annibynnol o holl weithrediad y sefydliad. Fel penodiad cyhoeddus mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i'r safon uchaf o weinyddiaeth fewnol. Mae swyddog wedi ei benodi yn Rheolwr Risg ac mae'r Comisiynydd yn hyrwyddo diwylliant o gyfrifoldeb ac atebolrwydd priodol drwy'r sefydliad.
- 4.29 Mae staff y Comisiynydd yn allweddol i weithredu swyddogaethau a gwireddu gweledigaeth y Comisiynydd. Rhaid sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol, a'u bod wedi'u hysbrydoli i ragori yn eu gwaith. Bydd y Comisiynydd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau fod yr holl staff yn deall ac yn gweithio tuag at weledigaeth y Comisiynydd.
-

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

17. Cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol
 18. Rheoli cyllid, adnoddau ac isadeiledd y sefydliad gan sicrhau gwerth am arian
 19. Gweithredu swyddogaethau llywodraethu priodol
 20. Datblygu a chynnal y gweithlu
-

5

Adrodd ar Gynnydd

- 5.1 Caiff y Cynllun Strategol hwn ei roi ar waith drwy gynlluniau gweithredol blynyddol a fydd yn cynnwys prosiectau penodol, amserlen a thargedau er mwyn mesur cyflawniad. Bydd y cynlluniau hyn yn ystyried anghenion adnoddau a chyllid hefyd ar gyfer pob prosiect.
- 5.2 Bydd y Comisiynydd yn adrodd ar ei gweithgareddau drwy Adroddiad Blynyddol statudol. Rhaid i'r adroddiad gynnwys y materion canlynol:
- Crynodeb o'r camau a gymerwyd wrth arfer swyddogaethau'r Comisiynydd
 - Adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg
 - Crynodeb o raglen waith y Comisiynydd
 - Cynigion y Comisiynydd ar gyfer rhaglen waith y flwyddyn ariannol ddilynol
 - Crynodeb o'r cwynion a wnaed
- 5.3 Yn ogystal, bydd Cyfrifon Blynyddol yn cael eu cynhyrchu o dan drefniadau y cytunwyd arnynt â'r Trysorlys; mae'r rhain yn ddarostyngedig i'w harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru.
- 5.4 Bydd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cael eu cyhoeddi a'u gosod ar wefan y Comisiynydd. Caiff copi o'r Adroddiad Blynyddol ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a rhaid iddynt osod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
-

Comisiynydd y Gymraeg

20

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.cymru

comisiynyddygybraeg.cymru



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner